

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **31 Hydref 2016** i:

Uned y Gymraeg
Isadran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno gyda'r dull o greu strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau pellach

Cytuna UCAC â'r pwyslais a roddir ar strategaeth uchelgeisiol, strategol, hirdymor. Nid trwy gyfres o bolisiau tymor byr y mae newid sefyllfa'r Gymraeg.

Wrth reswm, o fod yn uchelgeisiol, strategol a hirdymor, bydd angen i'r strategaeth fod yn fwy na chasgliad o syniadau. Bydd angen iddi fod wedi'i chynllunio a'i chyllido'n fanwl ac yn realistig; bydd angen sicrhau cydweithio a chyd-ddealltwriaeth ymhlith ystod eang o sefydliadau, mudiadau a chyrrff; bydd angen cadw golwg ar gynnydd ar sail cerrig milltir; ac mi fydd angen adolygu a diweddarau'n gyson, hynny yw, elfen o hyblygrwydd ac ystywythder i allu addasu i amgylchiadau dros y cyfnod hir a ragwelir.

Cytunwn yn ogystal bod angen prif-ffrydio'r Gymraeg "ym mhob cynllun, polisi a strategaeth ledled ystod o sefydliadau, yn ogystal ag wrth lunio deddfwriaeth." Un o'r manau cyntaf a mwyaf dylanwadol i ddechrau ar y gwaith hwn o brif-ffrydio yw'r gwasanaeth sifil, gan mai nhw sy'n llunio cymaint o'r strategaethau, polisïau a deddfwriaeth sy'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Yn rhy aml, nid yw'r Gymraeg yn cael ystyriaeth ddigonol, na digon arbenigol. Mae'r sefyllfa'n ddigon tebyg ar lefel Llywodraeth Leol.

Mae'n werth nodi na ymddangosodd Argymhelliad 3 Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Mawrth 2016) yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf (Mawrth 2016), sef 'Dylai arweinyddion hŷn o fewn Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyried yn greiddiol ar hyd y broses o gynllunio a gweithredu polisïau addysg.' Mae hynny yr un mor wir ar gyfer meysydd polisi eraill, ac yn mynd i fod yn gwbl greiddiol i lwyddiant y strategaeth.

Byddai hyn yn golygu bod gweithdrefnau priodol yn eu lle i sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg ym mhob datblygiad polisi (a hynny'n *gynnar yn y broses* ac yn rhan greiddiol ohoni, nid yn rhywbeth i'w ystyried tua'r diwedd), yn ogystal â chodi lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pob aelod o staff y gwasanaeth sifil ynghylch sefyllfa'r Gymraeg, deinameg ieithyddol ac ati. Ystyriwn hyn yn fater o frys.

Bydd angen sicrhau bod hwn yn brosiect Llywodraeth-gyfan, ac yn wir, yn brosiect cenedlaethol cydweithredol. Gan hynny, bydd angen cadw gorolwg cyson ar y lefel priodol (Cabinet?), a diogelu rhag toriadau neu newidiadau disymwth mewn meysydd penodol a allai effeithio ar y cyfanwaith. Rhaid talu sylw gochelgar i un o brif ganfyddiadau'r Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Mawrth 2016) sef '[nad] yw'r weledigaeth wedi'i gwreiddio mewn ffordd gyson ar draws yr holl bartneriaid gweithredu ac ar hyd gwahanol haenau'r gyfundrefn addysg, o Lywodraeth Cymru i lawr i awdurdodau lleol a darparwyr', ac o ganlyniad 'nad yw gweledigaeth na dylanwad y Strategaeth wedi'u prif ffrydio'n ddigonol i wrthsefyll dylanwad datblygiadau allanol eraill.'

Yr unig bryder sydd gennym ynghylch strategaeth mor hirdymor, yw sut i sicrhau ymrwymiad at y strategaeth yn sgil newidiadau yn y Llywodraeth dros y cyfnod. Nid oes mecanweithiau amlwg ar gyfer ymrwymo llywodraethau'r dyfodol at strategaeth neu bolisi'r Llywodraeth bresennol - oni bai bod rhywbeth yn bosib drwy strwythur pwyllgorau'r Cynulliad (h.y. bod cyfrifoldeb craffu a monitro gan un o'r pwyllgorau ar gyfer cyfnod cyfan y strategaeth)? Nid yw hyn yn rheswm dros beidio bwrw ati a chychwyn ar y gwaith; mater gwleidyddol fydd darbwyllo llywodraethau'r dyfodol - ond teimlwn ei fod yn werth codi'r cwestiwn, rhag ofn bod mecanweithiau posib nad ydym yn ymwybodol ohonynt.

Cwestiwn 2 – Ar wahân i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, does dim targedau penodol ynghlwm wrth y strategaeth ddrafft hon ar hyn o bryd. Yn eich barn chi, a oes unrhyw dargedau neu gerrig milltir penodol y dylid eu defnyddio er mwyn mapio'r siwrne a mesur ein cynnydd tuag at filiwn o siaradwyr?

Oes	✓	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
------------	---	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau pellach

Mae UCAC o'r farn bod rhyw fath o gerrig milltir neu fesuryddion yn anhepgorol, neu ni fydd gennym syniad a ydym ar y trywydd cywir. Bydd angen targedau tymor byr, canolig a hir.

Bydd angen bod yn ddeallus ynghylch natur y cerrig milltir, ac awgrymwn y bydd angen cyfuniad o dargedau/cerrig milltir sy'n mesur:

- nifer y siaradwyr, gan gynnwys canrannau, mewn cymunedau/gweithluoedd penodol, yn ogystal â Chymru gyfan; e.e. gellid dychmygu targedau penodol ar gyfer cynnydd yn nifer y siaradwyr dros amser mewn gweithluoedd penodol
- y defnydd o'r iaith/y cyfleoedd i'w defnyddio, gan gynnwys y cynnig rhagweithiol mewn amrywiol wasanaethau

Deallwn mai tasg gymhleth fydd pennu targedau a cherrig milltir. Gan y bydd angen dealltwriaeth o ddatblygiad iaith (caffael a cholli) dros gyfnodau estynedig, ynghyd â ffactorau socio-ieithyddol, awgrymwn mai cynllunwyr ieithyddol fyddai yn y sefyllfa orau i gynghori ar dargedau ystyrlon, ar y cyd ag ystadegwyr.

Bydd angen ystyriaeth yn ogystal i sut i wasgaru'r cerrig milltir o ran amseriad. Rydym yn dueddol o gytuno bod cynnydd cychwynol yn debygol o fod yn arafach am fod troi llong yn anodd. Bydd angen barn cynllunwyr iaith ar y mater hwn, sef y rhagolygon am newid, a'i gyflymder mewn gwahanol feysydd, dros amser.

Dylid rhoi ystyriaeth yn ogystal i ffyrdd hwylus i gasglu'r data angenrheidiol, gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio data sydd eisoes yn cael ei gasglu (e.e. y cyfrifiad; arolwg defnydd iaith; PLASC; LLWR; HESA), neu y byddai modd ei ychwanegu'n ddiraffferth at gasgliadau data cyfredol. Er pwysigrwydd data dibynadwy, nid ydym am greu anghenfil biwrocrataidd at y diben hwnnw.

Yr hyn sy'n hwyluso'r gwaith o hybu iaith yw màs critigol (ac i'r gwrthwyneb, wrth golli màs critigol, mae'r gwaith gymaint yn galetach). Os oes tebygolrwydd o 70% bod y person sy'n eich wynebu y tu ôl i'r cownter yn gallu siarad Cymraeg, rydych chi'n llawer fwy tebygol o'i gyfarch yn Gymraeg. Os yw'r tebygolrwydd yn 20% neu'n llai, mae'r ddynameg gymdeithasol yn golygu mai lleiafrif o bobl fyddai'n mentro. Dyma un o'r rhesymau dros yr angen i fesur canrannau/dwyster gwasgariad siaradwyr mewn lleoliadau penodol, yn hytrach na niferoedd moel yn unig. Ond dyma'r rheswm yn ogystal, os yw'r strategaeth yn dechrau cael llwyddiant, y dylai arwain at ragor o lwyddiant yn hwyrach yn ystod y cyfnod.

O ran byd addysg, gellid ailymweld a diweddarau rhai o dargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Argymhellodd y Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y dylid 'adolygu'r targedau ar gyfer 2020' a 'cynnwys is-dargedau ar lefel ranbarthol ar gyfer deilliannau lle bo hynny'n briodol.'

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r chwe maes datblygu a amlinellir yn y strategaeth – sef Cynllunio, Normaleiddio, Addysg, Pobl, Cefnogi, a Hawliau?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau pellach

Cytunwn yn gyffredinol â'r penawdau, ac yn arbennig â rôl allweddol addysg. Cynigiwn sylwadau mwy manwl ar bob un ohonynt yn y cwestiynau sy'n dilyn.

Awgrymw'n ychwanegu adran yn benodol ar Yr Economi neu Datblygu Economaidd. Wrth gwrs, gall unrhyw sector penodol ddod dan bennawd Cynllunio Ieithyddol. Fodd bynnag, gan fod datblygu economaidd yn faes polisi mor greiddiol i ddatblygiad Cymru, a bod ganddo'r potensial i gael effaith mor sylweddol ar yr iaith (yn gadarnhaol neu'n negyddol), teimlwn y byddai'n briodol rhoi sylw penodol a manwl iddo. Gallai adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd (Mawrth 2016) fod yn bwynt cychwyn ar gyfer y gwaith.

Cwestiwn 4 – Sut allwch chi gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth sydd yn y strategaeth?

Mae UCAC yn barod iawn i chwarae rôl weithredol wrth i'r strategaeth ddatblygu.

Gallwn yn sicr roi barn a chynghori ar feysydd megis cynllunio'r gweithlu addysg a datblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, ac rydym yn barod i fod yn rhan o drafodaethau ehangach.

Cwestiwn 5 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella cynllunio mewn perthynas â'r Gymraeg?

Oes	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau pellach

Maes Datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith

Cytunwn yn llwyr â'r pwyslais ar 'brif-ffrydio'r Gymraeg fel ei bod yn rhan annatod o gynllunio strategol ar bob lefel' – bydd hynny'n hanfodol ar gyfer llwyddiant y strategaeth.

Er mwyn gwneud hynny mewn ffordd strategol a deallus, bydd angen arbenigedd cynllunwyr ieithyddol. Nhw sydd â'r ddealltwriaeth orau o sut mae'r gwahanol lwybrau at gadw a chaffael iaith (neu beidio) yn ymwneud â chymhelliad (economaidd, diwylliannol, teuluol, cymdeithasol ac ati), sydd yn ei dro yn ymwneud â chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, ac at lefelau normaleiddio. Mae'r cymysgedd hyn yn un cymhleth, amrywiol a chynnil, ac mae'r ddealltwriaeth lefel uchel ohono, a fydd mor bwysig i lwyddiant y strategaeth, yn ddibynnol ar ymchwil, dadansoddiad a thrafodaeth broffesiynol.

Mi fydd angen mynd ati i ddatblygu strwythurau penodol ar gyfer 'lledaenu dealltwriaeth o hanfodion cynllunio ieithyddol'. Golyga hynny, roi rhagor o gyfleoedd ar gyfer y mathau o ymchwil sydd eu hangen, yn ogystal â lledaenu'r arbenigedd ymhlith cynulleidfaoedd llawer ehangach e.e. gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus eraill a byd busnes.

Bydd angen buddsoddiad priodol i sicrhau bod hyn yn digwydd, ac mi fydd yn debygol o fod yn fuddsoddiad sy'n talu ffordd o ran arwain at adeiladu strwythurau proffesiynol, ehangu ymchwil a thrafodaethau proffesiynol, anwytho to newydd o gynllunwyr ieithyddol mewn amrywiol sectorau, a dechrau dylanwadu ar brosesau cynllunio a pholisi drwy integreiddio cynllunio ieithyddol ym mhob maes.

Yn ogystal, bydd angen i gynllunwyr ieithyddol fod yn ganolog i'r strategaeth iaith newydd, o ran ei llunio yn y tymor byr, ac o ran ei gweithredu, ei monitro a'i hadolygu dros y tymor

hirach. Nhw fydd yn gallu cynghori orau ar ba feysydd i'w blaenoriaethu o ran gwneud y cynnydd gorau, a pha ddatblygiadau fydd yn debygol o esgor ar ganlyniadau buan a pha rai fydd yn fuddsoddiad ar gyfer y tymor hir ac yn debygol o ddangos canlyniadau nes ymlaen ym mywyd y strategaeth.

Dylid talu sylw dyledus i'r ymchwil, adroddiadau a'r argymhellion niferus sydd wedi'u gwneud eisoes yn y meysydd hyn. Mae gormod o lawer o'r gwaith hwn wedi aros ar y silff heb arwain at weithredu. Mae nifer o adroddiadau'n cael eu crybwyll yn ein hymateb, ond mae llawer fawr iawn rhagor (o eiddo grwpiau a phwyllgorau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yr holl adroddiadau ar bynciau penodol yn sgil gwerthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Bwrdd yr Iaith, Cwmni Iaith Cyf, Comisiynydd y Gymraeg, Estyn, Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol ac ati). Mae llyfryddiaeth ddefnyddiol yn Atodiad 3 adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith' (Rhagfyr 2013) – ond llawer eto wedi'i gyhoeddi ers hynny, ac un arall yn Atodiad 1 o Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Mawrth 2016).

Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, sut arall allwn ni wella ewyllys da at y Gymraeg er mwyn ei “normaleiddio” ymhellach?

Maes Datblygu 2: Normaleiddio

Er bod llawer o ddatganiadau yr ydym yn llwyr gytuno â nhw ym Maes Datblygu 2: Normaleiddio, teimlwn fod cryn dipyn o waith i'w wneud i droi'r pwyntiau hyn yn rhan o strategaeth weithredol, ymarferol.

Mae'r ddau bwynt gyntaf o dan y pennawd 'Sut', wir yn perthyn dan y pennawd 'Amcan' – oherwydd, anelu at y pethau hyn rydym ni am ei wneud – ond nid yw'r ddogfen yn esbonio *sut*.

Er mor bwysig yw ewyllys da tuag at yr iaith (ac mae'n sicr yn un rhan o'r jig-so), teimlwn nad yw'r pwyslais mawr a roddir ar hynny yn yr adran hon yn gwbl briodol. Gwyddom eisoes na allwn ni ddibynnu ar ewyllys da er mwyn symud yr iaith yn ei blaen - mae'n sail llawer rhy fympwyol ac anodd ei rheoli, ac nid yw'n cynnig pwyntiau gweithredu digon cadarn na gwelliannau digon concrit.

Yn yr un modd, nid ydym yn hollol gyffyrddus â'r derminoleg 'ewyllys i ddefnyddio'r iaith'. Unwaith eto, er bod hynny'n un elfen bwysig o'r darlun ehangach, mae'n awgrymu bod y cyfrifoldeb mwyaf ar y siaradwyr i 'ymwroli' a dod o hyd i'r ewyllys i ddefnyddio'r iaith. Gwyddom fod y sefyllfa'n llawer cymhlethach na hynny, a bod nifer fawr iawn o ffactorau seicolegol-gymdeithasol yn chwarae'u rhan yn y penderfyniad i ddefnyddio'r iaith ai peidio.

Byddem yn fwy bodlon â therminoleg sy'n rhoi'r pwyslais ar greu'r amgylchiadau priodol i wneud dewis defnyddio'r iaith yn ddewis naturiol, amlwg, cyffyrddus.

Am y rhesymau hynny felly, efallai ei fod yn ddefnyddiol i wahaniaethu rhwng dwy elfen bwysig, a'u trin ar wahân, gan eu bod, mewn gwirionedd, yn faterion tra gwahanol a fydd yn gofyn am strategaethau a phwyntiau gweithredu gwahanol iawn:

1) Normaleiddio o ran “creu sefyllfa lle mae'n gwbl arferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg”

- yn allweddol i hyn mae'r cynnig rhagweithiol; mae dogfen 'Mwy na Geiriau' (a'r Fframwaith Strategol Olynol) ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn flaengar yn y maes hwn, ac yn esbonio'r pwysigrwydd mewn termau syml, darbwyllog a huawdl; yn y bôn, rhaid peidio dibynnu ar bobl i ofyn am y gwasanaeth Gymraeg, *rhaid ei gynnig*; mae hyn yn ei dro yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio amrywiol gweithluoedd er mwyn sicrhau bod lefelau ieithyddol digonol i allu gwireddu'r cynnig rhagweithiol
- creu ethos ac awyrgylch gwirioneddol ddwyieithog/Cymraeg; mae hyn wedi cael cryn effaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac mi allai gwneud gwahaniaeth

mewn amryw o lefydd cyhoeddus

- hybu a hyrwyddo: mae annog, dwyn perswâd a chefnogi amrywiol gyrrff o ran cynnig gwasanaethau, a chreu ethos ac awyrgylch yn hollbwysig
- gorfodaeth: mae rôl bwysig i orfodaeth, o ran sicrhau bod cyrrff yn darparu'r gwasanaethau a ddisgwylir ac a fernir sy'n rhesymol, ac o ran tynnu sylw at ddiffygion a chynnig cefnogaeth i lenwi'r bylchau pan fo angen
- fel y dywedwyd uchod, un o'r ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar normaleiddio yw dwyster nifer y siaradwyr, a'r tebygolrwydd bod eich ymwneud â rhywun nad ydych chi'n eu hadnabod yn mynd i allu digwydd yn y Gymraeg h.y. màs critigol; felly o ddechrau creu mwy o siaradwyr (drwy'r system addysg, a ffyrdd amrywiol eraill - ar sail ddaearyddol, ac ar sail gweithleoedd/mannau cyhoeddus penodol hefyd) a thrwy greu'r amgylchiadau orau i annog y defnydd o'r iaith (gan gynnwys cynnig rhagweithiol) byddwn yn creu cylch rhinweddol a fydd yn arwain at gynnydd pellach

2) Normaleiddio o ran meithrin agweddau/ewyllys da (o bosib yn arwain at ddysgu'r iaith)

- ymgyrchoedd marchnata, sy'n cynnwys pwyslais ar fanteision dwyieithrwydd, gan gynnwys ymgyrchoedd wedi'u targedu at ddarpar-rieni a rhieni plant ifanc iawn megis Twf, gynt, a Chymraeg i Blant nawr, gan sicrhau eu bod ar gael ledled Cymru; gellid meddwl am gynulleidfaoedd targed eraill
- cynnwys o fewn y cwricwlwm diwygiedig (rhagor isod, cwestiwn 8) sydd nid yn unig yn meithrin sgiliau ieithyddol yn well, ond yn addysgu ynghylch hanes y Gymraeg er mwyn meithrin dinasyddion sydd â dealltwriaeth o le a phwysigrwydd yr iaith yn hanes Cymru, a'r brwydrau sydd wedi bod drosti

Ar gyfer y ddwy elfen uchod, bydd nifer o bethau'n helpu i roi sail gadarn:

- ymchwil i seicoleg agweddau siaradwyr Cymraeg – pryd maen nhw'n dewis defnyddio'r iaith ai peidio, beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu (o ran hanes a phrofiadau personol/teuluol/hanesyddol, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â sefyllfaoedd penodol)
- ymchwil i seicoleg agweddau siaradwyr di-Gymraeg; beth yw'r amheuan a'r mythau sydd angen eu chwalu (e.e. iaith y crachach a'r cyfryngis, nid iaith 'y bobl'; iaith/diwylliant mewnblyg; pobl yn defnyddio'r iaith i siarad tu ôl i gefnau pobl eraill; yr iaith yn cael ei ddefnyddio i roi mantais annheg yn y gweithlu a chadw pobl di-Gymraeg allan) – a sut i wneud hynny, ar bob lefel (e.e. sesiynau ymwybyddiaeth o fewn gweithluoedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n ddylanwadol o safbwynt polisi)

Cytunwn yn llwyr â'r angen i 'wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar arferion ieithyddol pobl ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau drwy gynnal ymchwil hydredol.' Gallai hyn fod yn eithriadol o werthfawr, ac yn rhoi sail, o ran dealltwriaeth, llawer cadarnach na rhai o'r rhagdybiaethau presennol ar gyfer llunio camau gweithredu. Mae deall profiadau ac agweddau yr un mor bwysig a chasglu ystadegau.

Un enghraifft yw'r ffordd y mae plant ifanc iawn yn sylweddoli'r gwahaniaeth o ran perthynas grym rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn yr isymwybod, maent yn dod i deimlo - yn rhyfeddol o ifanc - bod y Gymraeg mewn amrywiol ffyrdd yn 'israddol', yn 'lleiafrifol', yn 'amhoblogaidd'. Wrth gwrs, y brif ffrwd sy'n dueddol o fod fwyaf apelgar i blant, nid pethau sy'n eu gwneud yn wahanol ac yn 'leiafrifol'.

Mae hyn yn adrodd cyfrolau am statws y Gymraeg yn ein cymdeithas, ac mi fyddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad pellach o'r pwynt allweddol hwn ym mywydau dinasyddion, a chyfres o bwyntiau allweddol eraill i roi darlun cyflawn, manwl a chyfoethog a all ddarparu sail ar gyfer cynllunio ieithyddol strategol.

Cwestiwn 7 – Beth arall sydd ei angen er mwyn trosi'r agweddau da sydd gan bobl at y Gymraeg yn siaradwyr?

Fel uchod, cwestiwn 6, ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu'n benodol at wahanol garfannau. Ond, mae'n werth nodi bod cydberthynas agos rhwng agweddau a chyd-destun, a bydd unrhyw ymgyrch yn fwy tebygol o lwyddo mewn cyd-destun ble mae'r Gymraeg yn llawer fwy amlwg yn yr amgylchedd cyffredinol, yn weladwy ac yn glywadwy, a ble mae mwy o gymhellion, er enghraifft cyfleoedd am waith.

O ran y cyfleoedd i ddysgu, rhaid iddynt fod yn amrywiol ac yn hyblyg er mwyn bod yn gydnaws â phrysurdeb bywydau y rhan fwyaf o bobl. Os oes cyrsiau wedi'u targedu at gynulleidfaoedd penodol (e.e. rhieni plant bach, pobl sy'n gweithio'n llawn amser), mae'n werth gwneud yr ymchwil i'r farchnad i wybod pa fath – a pha gyfuniad - o gyfleoedd dysgu fyddai'n gweithio orau iddyn nhw.

Cwestiwn 8 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg?

Oes	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau pellach

Maes Datblygu 3: Addysg

Defnyddiwn y cwestiwn hwn i gyflwyno sylwadau manwl am Faes Datblygu 3: Addysg.

Cytunwn â dadansoddiad y ddogfen ymgynghorol bod rôl greiddiol gan y system addysg (yn ei ystyr ehangaf - o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu gydol oes) wrth ymgyrraedd at y targed o filiwn o siaradwyr. Mae'r sectorau cyn-ysgol ac oedran ysgol orfodol yn cynnig cyfleoedd amlwg am dwf sylweddol. Cytunwn yn ogystal, mai mater o flaenoriaeth felly yw 'sicrhau gweithlu â'r sgiliau addas i addysgu a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg'.

1. Cynllunio a hyfforddi'r gweithlu

Mae diffygion pendant yn y dulliau presennol o gynllunio'r gweithlu addysg. Ar hyn o bryd, yr unig gynllunio sy'n digwydd yw gosod nenfwd recriwtio ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), ond nid oes sail ddadansoddol gyson ar gyfer pennu'r niferoedd.

Nid oes mecanwaith ar gyfer rhagweld na dadansoddi anghenion y gweithlu'n ddigon manwl, gan gynnwys prinder data dibynadwy, ac nid ydym felly'n recriwtio'n ddeallus nac yn fwriadus. Mae gan y diffygion hyn sgil-ffeithiau ar gyfer niferoedd y staff, o bob math, sydd â sgiliau priodol yn y Gymraeg. Yn ôl y Gwerthusiad, ni fu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn effeithiol o ran 'esgor ar newidiadau sylfaenol i gyflenwad y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg' - bydd angen dysgu'r gwersi.

Bydd y strategaeth iaith a ddaw yn sgil yr ymgynghoriad hwn yn ei gwneud yn anhepgorol bod cynllun o ran y niferoedd a'r mathau o staff sydd eu hangen, a'r lefelau o sgiliau ieithyddol, ar draws sectorau, pynciau a grwpiau oedran.

Bydd angen sicrhau niferoedd digonol o athrawon sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, athrawon sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc, ac athrawon a staff eraill sy'n gallu sgwrsio/arwain gweithgareddau anffurfiol gyda disgyblion yn y Gymraeg gan gyfrannu at ethos Cymreig a Chymraeg mewn ysgolion.

Er bod y sylwadau isod yn canolbwyntio'n bennaf ar athrawon ysgol a chynorthwywyr dosbarth, rhaid cofio bod y gweithlu addysg yn llawer ehangach na hynny, gan gynnwys staff blynyddoedd cynnar, arbenigwyr megis therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysg, darlithwyr a chynorthwywyr addysg bellach, tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith, darlithwyr

addysg uwch a thiworiaid dysgu gydol oes.

Bydd yn rhaid targedu staff dan hyfforddiant cychwynnol yn ogystal â'r gweithlu presennol os am gael impact digonol, ac mi fydd angen gosod targedau twf dros amser.

1.1. Hyfforddiant cychwynnol

Mae newidiadau ar y gweill i'r system HCA, yn sgil adolygiad yr Athro Furlong. Mae'r rhain i'w croesawu'n gyffredinol, ac yn cyflwyno cyfle gwych i sicrhau bod llwybrau a gofynion llawer cadarnach o ran sgiliau ieithyddol. Bydd hyn yn angenrheidiol os am gynyddu nifer yr athrawon â sgiliau yn y Gymraeg, gan gynnwys er mwyn hwyluso cyflwyno'r continwrm ieithyddol yn lle llwybrau iaith gyntaf ac ail iaith.

Ar hyn o bryd, mae'r system o ran llwybrau Cymraeg o fewn HCA yn fympwyol ac anghyson dros ben. Gwelwn fod cyfle euraidd yn y meini prawf drafft newydd, ar gyfer sefydliadau sydd am gynnig cyrsiau hyfforddiant cychwynnol, i wreiddio'r gofynion/cyfleoedd/ llwybrau Cymraeg yn y ddarpariaeth Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Mae angen diffiniad llawer cliriach o'r hyn sy'n cyfrif fel cwrs 'cyfrwng Cymraeg' neu gwrs sy'n cymhwyso athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; mi allai gwmpasu Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn rhoi sicrwydd i gyflogwyr o'r medrau dan sylw; mae angen symud ymlaen o'r cynllun peilot ar fyrder.

O gynllunio'r ddarpariaeth yn well, a chreu darpariaeth fwy pwrpasol, mae angen mynd ati i recriwtio'n weithgar, gan gynnwys ymgyrchoedd marchnata, i ddenu'r niferoedd gofynnol o ymgeiswyr cymwys.

Yn ôl Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru 'Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, 2014/15' (27 Hydref 2016 SB 46/2016), o'r sawl a gwblhaodd cyrsiau HCA yng Nghymru yn 2013/14, roedd 20% wedi cwblhau cwrs "a oedd naill ai wedi eu galluogi i addysgu'n ddwyieithog neu wedi arwain at dystysgrif ffurfiol o addysg ddwyieithog". Roedd hyn 1% yn is nag yn 2013/14. Mae'n amlwg nad yw 20% yn mynd i fod yn ddigonol i gyflenwi ar y raddfa fydd ei angen, yn enwedig gan fod ansicrwydd ynghylch union natur mewnbwn ieithyddol y cyrsiau. Bydd angen pennu targedau twf, a strategaeth recriwtio uchelgeisiol.

1.2. Hyfforddiant yn y gweithle

Mae'r Cynllun Sabothol wedi cael cryn lwyddiant (gweler 'Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012 (Ionawr 2014)), a dylid edrych ar opsiynau ar gyfer ei ymestyn, gan gynnwys ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Croesawn ymrwymiad y Llywodraeth yn ei dogfen 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf' i ymestyn y cynllun i gynnwys cynorthwywyr dysgu.

Prif wendid y cynllun fu'r anhawster i ryddhau athrawon o'r ysgolion, a hynny er bod telerau'r cynllun yn hael o ran tâl ar gyfer cyflenwi.

Mi fydd yn werth ystyried sut i gymell ysgolion i wella sgiliau ieithyddol eu staff, ac felly cynyddu eu parodrwydd i ganiatáu staff i fynychu'r Cynllun Sabothol

- gellid cynnwys gofyniad dan adran datblygiad proffesiynol y Cynllun Datblygu Ysgol
- a fyddai modd cynnwys elfen â phwyslais ar weithredu drwy gyfrwng y ddwy iaith yn y Safonau Proffesiynol newydd arfaethedig?
- byddai sicrhau bod Estyn yn rhoi sylw i sgiliau ieithyddol staff yn siŵr o ddylanwadu ar benderfyniadau ysgolion ynghylch hyfforddiant
- os yw'r profion darllen a rhifedd blynyddol am barhau, byddai sicrhau bod plant *ym mhob ysgol* yn sefyll prawf darllen Cymraeg yn ogystal â phrawf

darllen Saesneg yn creu cymhelliant i godi sgiliau staff er mwyn codi sgiliau'r disgyblion

Mae'n bwysig cadw mewn cof un o brif argymhellion yr adroddiad uchod, sef y 'Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r Cynllun Sabothol 'yn strategol a systematig' fel modd o gefnogi a gwireddu'r blaenoriaethau a bennir yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg'.

Bydd angen ystyried cynnig amrywiol llwybrau a mathau o hyfforddiant, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er mwyn cyrraedd y nifer fwyaf posib o ymarferwyr, gan gynnwys cyrsiau ar-lein/dysgu o bell.

Yn yr un modd â phobl eraill sy'n dysgu'r iaith, neu'n gwella'u sgiliau, bydd angen cyfleoedd anffurfiol, cymdeithasol y tu allan i'r gweithle; cyfleoedd sydd o bosib yn agor drysau i gymunedau diddordeb gan gynnwys arlein. Mae cefnogaeth ar ôl dychwelyd i'r gweithle ar ôl bod ar gwrs iaith yn hollbwysig, ac mae angen cynllunio ar gyfer hynny – o fewn y gweithle a thu hwnt.

Gyda gwahaniaethau cynyddol rhwng systemau addysg Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd angen ystyried yr angen am gyflwyniad o ryw fath, neu gwrs pontio ar gyfer y sawl sydd wedi cymhwyso tu allan i Gymru sydd am ddod i weithio yma. Os felly, gellid cynnwys cyflwyniad i'r Gymraeg, o ran ymwybyddiaeth iaith, ac o ran sgiliau sylfaenol (neu fwy).

2. Cynllunio'r twf

Mae cydnabyddiaeth eang erbyn hyn bod addysg cyfrwng Cymraeg wedi tyfu diolch i ymdrechion unigolion a grwpiau gweithgar o rieni. Mae tystiolaeth gref i brofi na fu systemau mwy diweddar, megis targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn effeithiol o ran ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Gweler Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Mawrth 2016); ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Rhagfyr 2015) ac adroddiad Estyn ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol (Medi 2016).

Yr hyn sy'n gwbl glir yw'r angen nawr i gynllunio'r twf yn gwbl fwriadus. Ni fydd mesur y galw, nac ymateb i'r galw yn ddigonol bellach. 'Dengys tystiolaeth y gwerthusiad nad yw'r cynllunio ar sail ymateb i'r galw, sef un o egwyddorion y Strategaeth [Addysg Cyfrwng Cymraeg], o anghenraid yn sicrhau twf yn y ddarpariaeth' – Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Mawrth 2016).

Bydd angen gosod targedau twf dros amser sy'n ymwneud â niferoedd dysgwyr sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg (ar sail iaith yr asesu), a chyfran yr addysg cyfrwng Cymraeg. Dylid ystyried a oes angen targedau o ran nifer yr ysgolion a'r ffrydiau cyfrwng Cymraeg, neu ganolbwyntio ar nifer y dysgwyr. O ran amserlen, bydd angen penderfynu p'un ai canolbwyntio ar rai ardaloedd daearyddol, neu gyfnodau penodol e.e. y Cyfnod Sylfaen yn y lle cyntaf.

Dyma rai meysydd fydd angen sylw penodol:

2.1. Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar

Gyda'r addewid o gynnis 30 awr o ofal plant am ddim, bydd angen cynllunio'n ddi-oed i sicrhau y gellir darparu'r cynnis yn y Gymraeg, ac i hyrwyddo'r cynnis hwnnw.

Bydd sicrhau canran uchel o blant mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg yn greiddiol i ymdrechion i sicrhau bod rhagor o blant yn dilyn llwybr addysg cyfrwng Cymraeg; yn ogystal, mi fyddai sicrhau rhagor o ofal ac addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn hwyluso creu awyrgylch Cymraeg a sefydlu arferion ieithyddol mewn ysgolion cynradd.

Yr her gyntaf fydd sicrhau bod gweithlu â sgiliau digonol yn ei le. Bydd cydweithio gyda Mudiad Meithrin yn hanfodol, gan gynnwys ehangu llwybrau hyfforddiant megis Cam wrth Gam, a llwybrau eraill, gan gynnwys cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn

colegau addysg bellach.

Mae'r Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn tynnu sylw at y ffaith nad yw 'gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei fynegi'n gyson ar draws pob polisi, rhaglen a chynllun gweithredu perthnasol', ac yn argymhell y 'dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod yn gosod targedau ar gyfer tyfu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a'u cynnwys yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg' a 'cynnal astudiaeth... ar gynllunio darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar' gan ganolbwyntio ar restr o faterion penodol.

2.2. Continwwm ieithyddol ysgolion

Bydd angen gosod disgwyliadau pendant o ran taith ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol, a fydd yn gweld rhagor o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chyflwyno i ysgolion sydd, hyd yma, wedi dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Wrth i ysgolion cynradd symud ymlaen ar hyd y continwwm, rhaid sicrhau bod yr ysgolion uwchradd maent yn bwydo yn cynnig y llwybrau dilyniant priodol, er mwyn diogelu rhag llithro nôl.

Byddai ailystyried y categorïau ieithyddol ar gyfer ysgolion yn fuddiol, gan ddileu'r angen am ail-gategoreiddio sydd yn llesteirio ymdrechion i Gymreigio. Dylid gwahardd y posibilrwydd o gamu yn ôl o ran y continwwm wrth uno neu ffedereiddio ysgolion, a gellid ystyried alinio meini prawf Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gyda thargedau'r strategaeth iaith i greu cymhelliant pellach i Awdurdodau Lleol wrth ystyried trefniadaeth ysgolion.

Gyda'r lefelau priodol o hyfforddiant, nid oes angen i staff di-Gymraeg, neu anhyderus yn y Gymraeg, weld symud ar hyd y continwwm fel bygythiad. Mae enghreifftiau o ysgolion sydd wedi trosglwyddo i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg heb yr angen am ddiswyddo, drwy gynllunio a buddsoddi mewn hyfforddiant yn ofalus, ac yn ddigon pell ymlaen llaw.

Gweler yn ogystal 'Adolygiad o Brosiect i Annog Addysgu Cyfrwng Cymraeg mewn Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg' (Ionawr 2016).

2.3. Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Yn sgil y tri adroddiad a grybwyllwyd uchod, rhaid ystyried sut ac ar ba ffurf i symud ymlaen orau gyda'r Cynlluniau Strategol er mwyn sicrhau'r math o dwf a fwriedir. Rhaid osgoi ymarfer biwrocraidaidd hirfaith nad yw'n esgor ar welliant. Rhaid i gynlluniau a bwriadau'r Awdurdodau Lleol fod yn gwbl glir yn y ffordd maent yn ymgyswrted at ofynion a thargedau twf y strategaeth newydd, a rhaid iddynt fod yn atebol am y cynlluniau a'r bwriadau hynny.

2.4. Cludiant

Dylid cryfhau'r darpariaethau yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (2008) i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r diffiniad o 'ysgol addas agosaf' ac felly'n gwarantu cludiant. Mae'r gofyniad presennol ar i Awdurdodau Lleol 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn' yn gadael llawer gormod i ddisgresiwn yr Awdurdodau, yn enwedig yn y cyfnod hwn pan mae'n rhaid gwneud arbedion sylweddol iawn.

2.5. Hwyrddyfodiaid a throchi

Mae ymchwil wedi'i wneud i'r meysydd hyn. Rhaid ymestyn yr arfer dda y gwyddom amdano eisoes.

Dylid cofio yn ogystal am adroddiad gwerthfawr na chafodd ddigon o sylw hyd yma, sef 'Cymraeg fel Iaith Ychwanegol: Ymchwil i lefel yr angen a'r cymorth presennol a roddir i ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig gydag anghenion cymorth yn y Gymraeg' (2014)

2.6. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae newidiadau mawr yn yr arfaeth ar gyfer y gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol yn sgil Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Mae anawsterau o ran sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg dan y drefn bresennol, a gwelwn gyfle i wneud darpariaethau yn y Bil i wella'r sefyllfa at y dyfodol. Pwysleisiwn yr anghenion hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu fydd ynghlwm wrth hynny.

3. Y cwricwlwm

Mae proses o ddiwygio uchelgeisiol yn mynd rhagddi, yn sgil adroddiad yr Athro Graham Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus. Cynigia'r broses hon gyfleoedd cyffrous o safbwynt y Gymraeg, a chytunwyd eisoes y caiff Cymraeg iaith Gyntaf ac Ail iaith eu disodli gan gontinwmm (ar sail argymhellion Yr Athro Sioned Davies yn ei hadroddiad 'Un iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4' (Medi 2013).

Bydd creu'r continwmm yn waith arbenigol, a bydd cynllunio ar gyfer ei gyflwyno'n brosiect sensitif – o ran dealltwriaeth a chanfyddiadau'r cyhoedd, y gweithlu addysg a'r disgyblion a'u rhieni.

Wrth symud tuag at gyflwyno'r continwmm, dylid ystyried gwaith ymchwil ar y technegau dysgu iaith fwyaf effeithiol ledled y byd. Bydd addysgeg yn greiddiol i lwyddiant y continwmm, a bydd angen sicrhau y trosglwyddir arfer dda o ran addysgeg i'r gweithlu drwy hyfforddiant priodol.

Bydd angen i'r continwmm arwain at un cymhwyster, mwy na thebyg gyda sawl haen, yn ôl patrwm a sefydlwyd eisoes mewn pynciau eraill.

Bydd rhaid wrth eglurder ac onestrwydd ynghylch deilliannau disgyblion sydd wedi dilyn gwahanol drywyddion o ran cyfrwng iaith eu haddysg, a dylid gosod gwaelodlin o ran 'cymhwysedd rhyngweithredol' (*transactional competence*) yng ngeiriau'r Athro Donaldson, sef y dylai pawb allu siarad Cymraeg gyda chryn hyder, ac ysgrifennu i ryw lefel, erbyn gadael yr ysgol.

Yn ogystal â sgiliau ieithyddol, yn rhan o'r cwricwlwm newydd, dylai pob disgybl ddysgu am hanes Cymru (yn unol ag argymhellion Dr Elin Jones yn ei hadroddiad 'Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru' (2013) ac am yr iaith Gymraeg fel rhan o hanes a threftadaeth Cymru. Byddai prosiectau ymchwil cymunedol/teuluol yn gydnaws iawn â natur y cwricwlwm newydd, ac yn gallu agor llygaid disgyblion at sefyllfa'r iaith yn eu hardaloedd eu hunain dros y degawdau a'r canrifoedd. Byddai hyn oll yn eistedd yn gyffyrddus iawn mewn cyd-destun rhyngwladol, o safbwynt patrymau dwyieithrwydd dros y byd, a sefyllfa ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop a thu hwnt.

Gwyddom o brofiad dros flynyddoedd mawr, mai un ffactor sy'n achosi anawsterau a rhwystredigaeth fawr yn y sector cyfrwng Cymraeg yw prinder adnoddau, neu adnoddau sy'n cyrraedd yn rhy hwyr. Wrth ddiwygio'r cwricwlwm, bydd angen rhoi gwarant i'r sector y daw adnoddau o safon uchel, yn brydlon i gyd-fynd â'r gofynion newydd. Nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd yn sgil diwygio sylweddol iawn i gymwysterau. Bydd hyn yn bwysicach byth wrth i ni ddisgwyl i ragor o addysgu cyfrwng Cymraeg ddigwydd mewn ysgolion tu hwnt i'r sector cyfrwng Cymraeg. Gellid dychmygu system - efallai'n rhan o HWB - naill ai ar lefel ysgol, clwstwr, rhanbarth, neu'n genedlaethol, o rannu adnoddau Cymraeg mae athrawon eu hunain wedi'u creu. Mae cymaint ar gael i'w lawrlwytho o wahanol lefydd ar we yn Saesneg, ac mae angen dechrau llenwi'r bwlch o ran adnoddau Cymraeg - er mwyn lledaenu arfer dda, ond er mwyn lleihau'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n pwysu ar athrawon yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Rydym eisoes wedi sôn am bwysigrwydd cyfleoedd anffurfiol, cymdeithasol, tu allan i'r dosbarth i glywed a defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn wir am bawb sy'n dysgu'r iaith, boed yn ddisgybl, yn athro, neu'n unigolyn sydd wedi penderfynu dysgu'n annibynnol. Mi fydd yn bwysig bod yn ymwybodol o gyfleoedd i agor drysau i gymunedau diddordeb gan gynnwys arlein, yn ogystal â lleoliadau a grwpiau wyneb yn wyneb. Mae cyfleoedd i ymdrochi yn y

Gymraeg yn llawer prinnach nag mewn ieithoedd eraill, ond rhaid ymdrechu i ddod o hyd i'r cyfleoedd hynny - a hynny tu hwnt i ffiniau'r ysgolion eu hunain. Ar gyfer staff sydd wedi bod ar gwrs sabothol, gallai fod cyfnod mewn ffrwd neu ysgol cyfrwng Cymraeg yn fanteisiol.

Mae ystadegau'n dangos ein bod ni'n colli disgyblion o addysg cyfrwng Cymraeg wrth fynd drwy yrfa addysgol - mae colledion rhwng pob cyfnod allweddol, yn enwedig rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 sydd fel arfer yn golygu newid ysgol, ac yn fwy fyth rhwng addysg orfodol ac ôl-orfodol. Mae colledion hefyd o ran y Gymraeg fel pwnc, gyda disgyblion yn newid o lwybr iaith gyntaf i ail iaith wrth newid cyfrwng iaith eu haddysg. Mae ymchwil wedi'i wneud i gyfraddau dilyniant, ac argymhellion wedi'u gwneud. Mi ddylai cyflwyno continwmm ieithyddol helpu o ran atal llithriad yn y Gymraeg fel pwnc. Ac mi ddylai Cymreigio'r system addysg fel bod pob ysgol yn dysgu cyfran gynyddol o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg helpu rhywfaint hefyd.

Ond mae'n debygol y bydd angen sylw pellach i'r mater. Ac yn arbennig felly wrth bontio i addysg ôl-orfodol. Pwysleisiwn bwysigrwydd parhau i ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau'r ystod eang o gyrsiau addysg uwch. Rhaid rhoi pwyslais arbennig yn ogystal ar addysg bellach, prentisiaethau a llwybrau i gyflogaeth, gan fod y rhain yn llwybrau tuag at Gymreigio gweithluoedd a gwasanaethau ehangach, ac felly'n bwydo amcanion y strategaeth mewn sawl ffordd ar yr un pryd.

4. Strwythurau o amgylch yr ysgol

Mae ysgolion yn gweithredu o fewn cymunedau, a strwythurau cymunedol. Ni ellir anwybyddu'r rhain o safbwynt yr angen i ennyn cefnogaeth i'r broses o dwf mewn addysg Cymraeg.

Mae rhieni a llywodraethwyr yn grwpiau pwysig a dylanwadol. Mae cyfleoedd i ddarparu gwybodaeth, arweiniad a hyd yn oed hyfforddiant i lywodraethwyr, ac mae hynny'n cynnig cyfle o ran trosglwyddo negeseuon a gwybodaeth allweddol. Gyda newidiadau i'r rheoliadau sy'n rheoli cyrff llywodraethu ysgolion yn yr arfaeth, a phwyslais newydd ar sicrhau lefelau addas o arbenigedd, gellid sicrhau bod dealltwriaeth o werth, pwysigrwydd a rôl y Gymraeg (a hynny o fewn cyd-destun continwmm ieithyddol ysgolion) yn un o'r meysydd hynny.

Dylid sicrhau, yn ogystal, bod modd i weinyddiaeth fewnol ysgolion ddigwydd yn y Gymraeg - o safbwynt perthynas yr ysgol â'r Awdurdod Lleol, y consortiwm rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, Estyn ac unrhyw gyrrff/asiantaethau swyddogol eraill. O ran y corff llywodraethol, dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau bod modd i'r cyfarfodydd ddigwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, ble mae'r ysgol yn dymuno gwneud hynny, drwy ddarparu cyfieithu (ar y pryd yn y cyfarfod; a chyfieithu unrhyw ddogfennaeth berthnasol) ar gyfer unrhyw aelodau o'r corff nad ydynt yn medru'r Gymraeg.

Rydym eisoes wedi crybwyll pwysigrwydd cynnig gofal plant yn y Gymraeg. Mae hynny yr un mor wir ar gyfer gwasanaethau cofleidiol eraill sy'n amgylchynu ysgolion, megis clybiau brechwast, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau, gweithgareddau allgyrsiol (trwy'r ysgol, ac eraill).

Cwestiwn 9 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio Cymraeg?

Oes	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau pellach

Maes Datblygu 4: Pobl

Ar hyn o bryd, nid yw Maes Datblygu 4: Pobl yn llwyddo i wahaniaethau'i hun yn ddigonol oddi wrth feysydd Cynllunio a Normaleiddio. Mewn gwirionedd, mae pob Maes Datblygu'n

ymwneud ar ryw lefel â Phobl ac at newid agweddau a defnydd o'r iaith.

Gallai fod lle ar gyfer adran sydd â'r pwyslais ar bobl, ond bod angen ei ddiffinio'n well. Ydyn ni'n canolbwyntio ar agweddau, neu ar gyfleoedd? Ydyn ni'n pwysleisio caffael/trosglwyddo, neu ddefnyddio?

O ran ystyr cymuned, oes, mae'n rhaid edrych yn ehangach na'r diffiniad traddodiadol. Rhaid cynnwys rhwydweithiau diddordeb a digidol, cymunedau ar sail gweithle – *yn ogystal* â chymunedau daearyddol (pentrefol/trefol/dinesig). Rydym wedi sôn uchod am bwysigrwydd dwyster siaradwyr ar gyfer normaleiddio, creu cymhelliant a chymhathu, ac mae hynny'n wir ym mhob un o'r mathau uchod o 'gymunedau'.

O ran trosglwyddo'r iaith, rhwng rhieni a phlant, mae angen, fel cam cyntaf, darbwyllo rhieni bod hyn yn werth ei wneud (er budd y plentyn), ac fel ail gam eu harfogi â thechnegau a deunyddiau cefnogol. Mae hyn yn bwysig yn enwedig mewn cartref ble nad yw pob riant yn siarad Cymraeg, ond rhaid peidio diystyru'r cartrefi ble mae'r ddau riant yn siaradwyr Cymraeg, gan fod lle i wella o ran y cyfraddau trosglwyddiad yno hefyd.

O gadw adran â'r thema Pobl, gellid cynnwys ystyriaeth o ffactorau sy'n ymwneud â symudoledd poblogaeth – allfudo yn ogystal â mewnfudo.

Cwestiwn 10 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn rhoi gwell seilwaith i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

Sylwadau pellach

Maes Datblygu 5: Cefnogi

Cytunwn â'r awgrymiadau yn y ddogfen ymgynghorol.

O bosib, gellid ychwanegu pwyslais ar annog cymunedau (yn yr ystyr ehangaf) i greu eu cynnwys cyfryngol/darlledu eu hunain yn y Gymraeg.

Bu 'Canllawiau Dylunio Dwyieithog' (Bwrdd yr Iaith) yn ddogfen werthfawr; efallai y gellid ystyried canllawiau i gefnogi cyrff i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Cwestiwn 11 – A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella hawliau siaradwyr Cymru?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

Sylwadau pellach

Maes Datblygu 6: Hawliau

Mae'r fframwaith hawliau'n bwysig, ac mae angen sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ymestyn mewn ffordd gadarn a synhwyrol, er enghraifft i gynnwys gwasanaethau megis deintyddiaeth ac optegaeth, sydd i ryw raddau (neu wedi bod) yn wasanaethau cyhoeddus. Mae sectorau megis cyfleustodau (gan gynnwys cwmnïau ffonau symudol) a banciau'n feysydd amlwg ar gyfer gwelliant.

Cytunwn fod angen gwell cydbwysedd rhwng hyrwyddo, deddfwriaeth a rheoleiddio, a

chrosawn y cyhoeddiad diweddar ynghylch sefydlu Asiantaeth at bwrpas hybu a hyrwyddo.

Cwestiwn 12 - Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o bolisiâu manwl mewn meysydd penodol dros gyfnod y strategaeth hon. Pa bolisiâu ydych chi'n meddwl y dylem eu blaenoriaethu i'w cyhoeddi dros bum mlynedd gyntaf y strategaeth?

- **Datblygu gweithluoedd â medrau Cymraeg:** rydym yn croesawu'r pwyslais cychwynnol ar y gweithlu addysg; bydd angen ehangu'n fuan i ganolbwyntio ar weithluoedd penodol eraill; efallai bod modd llunio rhai egwyddorion, technegau/llwybrau a phwyntiau gweithredu cyffredin ar gyfer y broses o Gymreigio gweithluoedd, er yn amlwg y bydd y manylder ar gyfer pob gweithlu unigol yn wahanol; gellid rhagweld rôl ganolog i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y gwaith hwn; mae mantais ddwbl i'r gwaith o Gymreigio gweithluoedd sef ei fod (1) yn creu mwy o siaradwyr Cymraeg, ac yn cynyddu lefelau hyder a rhuglder (2) ei fod yn ffordd o gynnig rhagor o wasanaethau Cymraeg ac felly'n cyfrannu at normaleiddio
- **Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg:** mae angen cynllun manwl, penodol ac uchelgeisiol, gyda chymau gweithredu clir, targedau twf a chyllideb; bydd angen nodi'r prif bartneriaid a sicrhau bod cyfundrefn yn ei lle sy'n golygu eu bod nhw'n atebol i'r cynllun; mi fydd angen iddo gwmpasu'r blynyddoedd cynnar, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Saesneg, addysg ôl-16 mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith, dysgu gydol oes ac addysg uwch

Cwestiwn 13 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: